**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN**

**ADEILADU TWMPATHAU FFORDD NEWYDD -**
**AMRYWIOL FFYRDD, LLANELLI**

**HYSBYSIR TRWY HYN** fod Cyngor Sir Caerfyrddin ('y Cyngor'), drwy arfer y pwerau a roddir gan Adran 90A o Ddeddf Priffyrdd 1980 (y cyfeirir ati fel 'y Ddeddf' o hyn ymlaen) a'r holl bwerau galluogi eraill, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu a'r cyrff neu'r personau hynny a bennir gan Reoliadau Priffyrdd (Twmpathau Ffyrdd) 1999 (y cyfeirir atynt fel 'y Rheoliadau' o hyn ymlaen) yn unol ag Adran 90C(1) o'r Ddeddf, ac yn unol ag Adran 90C(2) o'r Ddeddf, yn bwriadu adeiladu twmpathau ffordd ar ffurf twmpath arafu estynedig, yn unol â'r Rheoliadau, ar hyd amrywiol ffyrdd yn Llanelli.

Disgrifir lleoliadau'r twmpathau ffordd yn fwy penodol yn yr Atodlen i’r Hysbysiad hwn ac fe'u dangosir ar y cynlluniau sydd ynghlwm wrth yr Hysbysiad hwn.

Bydd y twmpathau ffordd arfaethedig yn dwmpath arafu estynedig sy'n ymestyn ar draws lled llawn y ffordd gerbydau, gyda’u llwyfandir yn mesur naill ai 3000 milimetr (3 metr), 4000 milimetr (4 metr) neu 6000 milimetr (6 metr) o hyd. Bydd pob un o'r twmpathau yn mesur 75 milimetr o uchder, yn unol â'r amrywiadau a ganiateir yn y Rheoliadau (lle na fydd twmpath yn mesur mwy na 100 milimetr o uchder).

Gellir gweld manylion llawn y cynnig, ynghyd â chynlluniau a datganiad o resymau'r Cyngor dros gyflwyno'r mesurau fertigol hyn, yn swyddfeydd HWB Gwasanaethau Cwsmeriaid y Cyngor yn Rhif 36, Stryd Stepney, Llanelli SA15 3TR yn ystod oriau swyddfa arferol.

Mae'r dogfennau hefyd:

- i'w gweld ar wefan y Cyngor drwy fynd i https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/hysbysiadau-cyhoeddus; neu
- ar gael am ddim drwy ysgrifennu i'r Gwasanaethau Dylunio Proffesiynol yn Adeilad 2, Parc Myrddin, Waun Dew, Caerfyrddin SA31 1HQ, neu drwy e-bostio ENTrafficManagement@sirgar.gov.uk.

Os ydych am wrthwynebu'r cynnig uchod, gofynnir i chi gyflwyno eich rhesymau dros wrthwynebu yn ysgrifenedig at Bennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil yn Neuadd y Sir, Caerfyrddin SA31 1JP erbyn y **31ain o Ragfyr 2025**, gan ddyfynnu'r cyfeirnod “HMD/HTTR-1991”.

*Cofiwch, gall yr holl lythyrau a dderbynnir gael eu hystyried yn gyhoeddus gan y Cyngor a gallai'r cyhoedd weld cynnwys y llythyrau, ynghyd ag enw a chyfeiriad y person sy'n llunio'r llythyr.*

**Dyddiedig y 3ydd dydd o Ragfyr 2025.**

Cyfeirnod y Ffeil: HMD/HTTR-1991
Llinell Uniongyrchol: 01267 224066
E-bost: HeMDavies@sirgar.gov.uk

WENDY WALTERS
Y Prif Weithredwr
Neuadd y Sir, Caerfyrddin

# YR ATODLEN

## Rhan I

**Twmpathau Arafu Estynedig sy'n**
**3000 milimetr (3 metr) o hyd**

1. Y B4304 Heol yr Orsaf, Llanelli – Ger Rhif 87, Heol yr Orsaf.

2. Y B4304 Heol y Doc Newydd, Llanelli – Ger Rhif 33, Heol y Doc Newydd.

3. Y B4304 Heol y Doc Newydd, Llanelli – Ger Rhif 59, Heol y Doc Newydd.

4. Heol Copperworks, Llanelli – Ger Rhif 5, Heol Copperworks.

## Rhan II

**Twmpath Arafu Estynedig sy'n**
**4000 milimetr (4 metr) o hyd**

1. Y B4304 Heol y Doc Newydd, Llanelli – Ger Rhif 2, Heol y Doc Newydd.

**Rhan III**

**Twmpathau Arafu Estynedig sy'n 6000 milimetr (6 metr) o hyd**

1. Y B4304 Heol y Doc Newydd, Llanelli - Mewn lleoliad tua 30 metr i'r gogledd o ganol y gyffordd â Heol Arglawdd.

2. Y B4304 Y Rhodfa, Llanelli - Mewn lleoliad tua 52 metr i'r de o ganol y gyffordd â Rhes Dafen.

3. Heol Northumberland, Llanelli - Mewn lleoliad tua 61 metr i'r gorllewin o'r gyffordd â'r B4304, Y Rhodfa.

4. Rhes Dafen, Llanelli - Mewn lleoliad tua 10 metr i'r dwyrain o'r gyffordd â'r B4304, Y Rhodfa.